**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 21 Mai 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn, yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 5 Mehefin 2019 |

**PWNC**

Eitem 5 :CYFRIFON TERFYNOL 2018/19 - ALLDRO REFENIW

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i:

1.1 Nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2018/19.

1.2 Cymeradwyo'r symiau i'w cario ymlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1) sef -

| ADRAN | £'000 |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 15 |
| Plant a Theuluoedd | 100 |
| Addysg | 100 |
| Economi a Chymuned | 28 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 100 |
| Amgylchedd | (100) |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | (59) |
| Tîm rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (76) |
| Cyllid | (59) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (61) |

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn Atodiad 2) –

- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £1,544k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2019/20.
- Yr Adran Addysg i dderbyn cymorth ariannol rhannol un-tro o £16k gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k.
- Digolledu'r Adran Economi a Chymuned £157k, sef swm y gorwariant o ganlyniad i lithriad yn yr amserlen sefydlu cwmni Byw'n Iach i redeg y cyfleusterau hamdden, sydd felly yn cyfyngu lefel y gorwariant i'w gario ymlaen gan yr Adran i £28k.
- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £518k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2019/20.
- Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol, cadw at y drefn arferol i ganiatáu i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, a symud (£392k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.
- Ar gyllidebau Corfforaethol, trosglwyddo:
  - (£19k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor i gronfa benodol i'w ystyried

ar gyfer y Strategaeth Dai.
- (£551k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
- (£738k) ar gynnal a chadw i gronfa cynnal a chadw.

- Defnyddio (£1,843k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.
- Bydd gweddill tanwariant Corfforaethol (£173k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd a darpariaethau penodol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd a darpariaethau, sef:

- Cynaeafu (£3.931m) o gronfeydd a (£69k) o ddarpariaethau.
- Trosglwyddo £3m i'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer Cynllun y Cyngor.
- Trosglwyddo £1m i Falansau Cyffredinol y Cyngor.
- Neilltuo £262k am gyfnod o flwyddyn o'r gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i bontio'r ffynhonnell ariannu ymrwymiadau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---